

Crynodeb o'n Cynllun Sychder 2022



Rydym yn cyflenwi dŵr ar gyfer mwy na **thair miliwn o gartrefi a busnesau** ledled Gogledd Orllewin Lloegr. Rydym yn cyflenwi mwy nag **1.8 biliwn litr o ddŵr o ansawdd uchel wedi'i drin** bob dydd, yn ogystal â thynnu a thrin dŵr gwastraff.



Er mwyn cynllunio ar gyfer y tymor hir, rydym yn datblygu ac yn gwella ein rhwydwaith a'r ffordd yr ydym yn ei reoli, fel y gallwn:

- ymateb i'r gofynion a ddaw yn sgil newidiadau i'r hinsawdd, y boblogaeth a ffyrdd o fyw; a
- pharhau i ddarparu gwasanaeth y gall cwsmeriaid ddibynnu arno nawr ac yn y dyfodol.

Bob pum mlynedd rydym yn cynhyrchu cynllun rheoli adnoddau dŵr sy'n esbonio sut rydym yn sicrhau bod gennym gyflenwad digonol i ateb y galw am ddŵr dros y tymor hir wrth gydbwyso'r effaith mae hyn yn ei chael ar yr amgylchedd. Gallwch ddarllen mwy am hynny yma:

Rydym hefyd yn cynhyrchu cynllun sychder yn nodi sut y byddem yn rheoli cyflenwadau dŵr mewn sychder. Dyma grynodedd o'r cynllun hwnnw. Gallwch weld y cynllun llawn, sy'n fwy manwl, yma:

Beth yw cynllun sychder a pham mae angen un arnom ni?

Er bod ein rhanbarth yn wlypach na rhai rhannau eraill o'r DU, mae sychder a digwyddiadau eithafol eraill megis llifogydd yn nodwedd naturiol o hinsawdd y rhanbarth. Ar gyfartaledd, mae 90% o'r dŵr rydyn ni'n ei gyflenwi yn dod o ffynonellau dŵr wyneb megis afonydd a chronfeydd dŵr. Mae hyn yn golygu bod angen i ni weithredu'n brydlon i ymateb i hinsawdd y rhanbarth a'i dywydd newidiol.

Mae'r cynllun sychder yn nodi ein dull o reoli cyflenwadau dŵr yn ystod sychder. Mae'n esbonio:

- **pa mor debygol yw hi y bydd sychder;**
- **sut rydyn ni'n rhagweld cyfnodau o sychder; a'r**
- **camau y byddwn yn eu cymryd i amddiffyn cyflenwadau dŵr a'r amgylchedd yn ystod sychder.**

Mae ein cynllun yn seiliedig ar gyfraith a chanllawiau cyfredol, gan gynnwys Canllawiau Cynllun Sychder Defra a Deddf y Diwydiant Dŵr 1991. Rydym wedi gweithio'n agos gyda'n rheoleiddwyr a phartïon eraill â diddordeb (rhanddeiliaid) i ddatblygu'r cynllun.

Ardaloedd adnoddau dŵr United Utilities

Mae ein rhanbarth yn cynnwys ardal o Gymbria i Swydd Gaer, ac o'r Penwynion i arfordir y gorllewin. Yn unol â chanllawiau Asiantaeth yr Amgylchedd, mae ein rhanbarth wedi'i rannu'n ardaloedd adnoddau dŵr.

Ardal Adnoddau Strategol

Yn gwasanaethu gorllewin Cymbria, de Cymbria, Swydd Gaerhirfryn, Manceinion Fwyaf, Glannau Mersi a'r rhan fwyaf o Sir Gaer.

Ardal Adnoddau Caerliwelydd









Yn gwasanaethu tyllau turio



Ardal Adnoddau Gogledd Eden

Eden ardal Caerliwelydd sy'n gwasanaethu rhan wledig, ogleddol ardal Eden yn Cymbria.

Ardal Adnoddau Barepot







Dŵr na ellir ei yfed (*hynny yw, dŵr nad yw o ansawdd yfed*) ar gyfer diwydiant.

-  Ardal Adnoddau Caerliwelydd
-  Ardal Adnoddau Strategol
-  Ardal Adnoddau Gogledd Eden
-  Barepot
-  Ffin gynt i Ardal Adnoddau Gorllewin Cymbria
-  Trefi
-  Poblogaeth
-  Cyflenwad dŵr yfadwy ar gyfartaledd (megalitrau y dydd)



Rhagweld amodau sychder

Rydym yn monitro ffynonellau dŵr a nifer o ffactorau eraill yn rheolaidd i ragfynegi a rheoli sychder. Mae'r ffactorau rydyn ni'n eu hystyried yn cynnwys y canlynol:

	Lefelau'r cronfeydd dŵr a'r dŵr daear (<i>dŵr a gesglir o dan wyneb y ddaear</i>)
	Llifoedd afon
	Cyfraddau tynnu (<i>faint o ddŵr rydyn ni'n ei dynnu o ffynhonnell ddŵr</i>)
	Llif iawndal cronfeydd dŵr (<i>dŵr sy'n cael ei ryddhau o gronfa ddŵr i sicrhau bod llif parhaus mewn cwrs dŵr i lawr yr afon</i>)
	Gollyngiadau
	Galw am ddŵr

O'r wybodaeth a gasglwn gallwn gydnabod pan fydd pethau'n dechrau newid a galleu fod yn wynebu sychder.

Rydyn ni'n rhannu'r wybodaeth rydyn ni'n ei chasglu ag Asiantaeth yr Amgylchedd a'r Ganolfan Ecoleg a Hydroleg, sy'n adrodd ar adnoddau dŵr ar lefel genedlaethol.

Rhagfynegi a rheoli cyfnodau o sychder


Rydym yn rheoli pob ardal adnoddau dŵr yn unol â phedair 'lefel sychder', sydd mewn bandiau. Gallwch ddarganfod mwy am y lefelau hyn yn adran 2.3 ein cynllun sychder llawn:

Rydym yn monitro'r lefelau, a'r amser a gymerir i symud rhyngddynt, i asesu pa gamau sydd fwyaf priodol i reoli'r sefyllfa ar y pryd.

O fewn pob lefel sychder rydym yn ystyried pa gamau y gallwn eu cymryd – o ofyn i gwsmeriaid ddefnyddio llai o ddŵr i gyflwyno cyfyngiadau megis gwaharddiad dros dro ar rai mathau o ddefnydd dŵr.

O fewn pob lefel rydym yn gweithio gyda rheoleiddwyr a rhanddeiliaid i reoli'r sefyllfa sy'n datblygu.

Gellir defnyddio unrhyw gamau y penderfynwn arnynt i reoli sychder ar draws y rhanbarth cyfan, adran adnoddau penodol neu ardal ddaearyddol benodol. Dim ond camau sy'n iawn ar gyfer y sefyllfa benodol y byddwn yn eu cymryd.




Lefelau dŵr isel yng Nghronfa Dovestone



Cyfathrebu â chwsmeriaid mewn cyfnod o sychder

Er mwyn ein helpu i reoli galw cwsmeriaid am ddŵr yn ystod sychder, rydym wedi datblygu dull hyblyg wedi'i deilwra o gyfleu negeseuon i gefnogi'r camau yr ydym am i gwsmeriaid eu cymryd.

Ein nod yw lleihau faint o ddŵr a ddefnyddir trwy helpu cwsmeriaid i newid eu hymddygiad eu hunain. Rydym yn defnyddio ystod o negeseuon cynyddol, ynghyd â chymhellion, i annog cwsmeriaid i gymryd y mesurau angenrheidiol i arbed dŵr. Mae'r negeseuon a'r cymhellion hyn wedi'u targedu at wahanol grwpiau cwsmeriaid.



Camau y cymerir trwy gydol y flwyddyn

Rydym bob amser yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â gollyngiadau o'n rhwydwaith o bibellau a'u lleihau.

Bob blwyddyn rydym yn trwsio tua 32,000 o ollyngiadau, ac rydym wedi ymrwmo i leihau cyfaint y dŵr a gollir trwy ollyngiadau gan:

- 15% erbyn 2025; a
- 50% erbyn 2050.

Rydyn ni bob amser yn annog cwsmeriaid i fod yn fwy effeithlon o ran sut maen nhw'n defnyddio dŵr yn eu cartrefi, eu gerddi a'u busnesau, er mwyn osgoi gwasttraff.

Mae'r galw cynyddol am ddŵr yn cynyddu faint o ddŵr y mae'n rhaid i ni ei gymryd o'r amgylchedd. Mae trin a chyflenwi dŵr hefyd yn cynyddu ein hallyriadau CO₂ yn sylweddol. Felly mae gweithio gyda'n holl gwsmeriaid i leihau'r galw yn sylweddol o fudd i'r amgylchedd.

Nod ein strategaeth effeithlonrwydd dŵr yw gwneud pobl yn ymwybodol o wir werth dŵr, a sicrhau newidiadau ymddygiad tymor hir. Rydym yn codi ymwybyddiaeth trwy:

- helpu cwsmeriaid gyda mesurydd dŵr i ddeall faint o arian y gallant ei arbed trwy leihau faint o ddŵr y maent yn ei ddefnyddio; a
- helpu cwsmeriaid heb fesurydd i ddeall sut mae defnyddio llai o ddŵr o fudd i'r amgylchedd ac yn helpu i leihau effeithiau newid yn yr hinsawdd, a'u hannog i newid i fesurydd.

Gallwch ddarllen mwy am ein gweithgareddau trwy gydol y flwyddyn yn ein cynllun rheoli adnoddau dŵr.

Ar ôl sychder

Rydym yn defnyddio ystod o ddangosyddion i nodi pryd mae sychder wedi dod i ben, gan gynnwys:

Lefelau dŵr cronfeydd allweddol

Galw cyfredol o'i gymharu â'r galw arferol

Rhagolygon y tywydd ar gyfer y saith i 30 diwrnod nesaf

Glawiad blaenorol ac asesiad o leithder y pridd

Argaeledd dŵr y gellir ei bwmpio o lynnoedd ac afonydd i helpu cronfeydd dŵr i adfer

Lefelau dŵr ar draws ardaloedd adnoddau

Argaeledd dŵr o ffynonellau dŵr daear a thyllau turio

Bydd y penderfyniad i leddfau neu ddod â mesurau sychder i ben yn seiliedig ar asesiad parhaus, a byddwn yn trafod ein cynigion gydag Asiantaeth yr Amgylchedd a Chyfoeth Naturiol Cymru (lle bo hynny'n briodol).

Ar ôl sychder, byddwn yn adolygu ein gweithredoedd rheoli sychder gyda rhanddeiliaid allweddol, ac yn nodi unrhyw wersi a ddysgwyd i sicrhau bod ein cynlluniau'n parhau i wella a bod yn effeithiol.

Pa mor debygol yw hi y bydd angen i chi weithredu i reoli sychder?

Mae cyfnodau o sychder yn nodwedd naturiol o hinsawdd y rhanbarth. Er mwyn i'n cynllun sychder fod yn effeithiol, mae'n bwysig deall y mathau o sychder rydyn ni mewn perygl o'u profi. Cawsom y ddealltwriaeth angenrheidiol trwy:

- edrych yn ôl ar gyfnodau o sychder y gorffennol; a
- defnyddio technegau 'modelu' soffistigedig i ddatblygu senarios sychder realistig a allai godi yn y dyfodol.



Pa gamau y gallech chi eu cymryd i reoli sychder?

Yn seiliedig ar y ddealltwriaeth hon, rydym wedi tybio y byddai o bosib angen i ni ddefnyddio:

Risg o
5%
y flwyddyn

Gwaharddiadau defnydd dros dro, a elwid gynt yn waharddiadau pibell ddŵr, unwaith mewn 20 mlynedd;

Risg o
2.5%
y flwyddyn

Trwyddedau sychder gan Asiantaeth yr Amgylchedd, gan roi caniatâd i ni fynd â ddŵr o ffynonellau penodol neu i gynyddu'r ddŵr a gymerwn o ffynonellau penodol, unwaith mewn 40 mlynedd o 2025;

Risg o
1.25%
y flwyddyn

Gwaharddiadau defnydd nad yw'n hanfodol, a elwir hefyd yn orchmynion sychder cyffredin, sy'n cyfyngu ar fwy o weithgareddau na gwaharddiad defnydd dros dro ac a all effeithio ar fusnesau, unwaith mewn 80 mlynedd; a

Risg o
0.5%
y flwyddyn

Chyfyngiadau brys, sef trefniadau amgen ar gyfer cyflenwi ddŵr (megis safbibellau ddŵr), unwaith mewn 200 mlynedd.

Rydyn ni'n rhagweld bod gennym ni ddigon o ddŵr i ateb y galw hyd at 2045 a thu hwnt, oni bai bod newid sylweddol i'r cynllun hwn, a fydd ar waith tan 2027.

Gallwch ddarllen ein cynllun sychder llawn a'n cynllun rheoli adnoddau ddŵr yma: